**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac Adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ar ôl ymgynghori â'r rheiny y mae'n ofynnol ymgynghori â nhw, yn bwriadu:

- Agor Canolfan Adnoddau Dysgu Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw, Folly Road, Trefddyn, Pont-y-pŵl NP4 8JD

Bwriedir rhoi'r cynigion ar waith ym mis Medi 2026.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Cyhoeddwyd adroddiad am yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd a safbwyntiau ymateb llawn Estyn, ar gyfer yr holl ymgyngoreion statudol ac mae ar gael ar wefan Torfaen
https://www.torfaen.gov.uk/cy/EducationLearning/21st-Century-Learning/21st-Century-Learning.aspx

Mae'r hysbysiad hwn yn cynnig agor Canolfan Adnoddau Dysgu Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i sicrhau na fydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer lleoliad arbenigol adael lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fynd i leoliadau cyfrwng Saesneg. Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â Pholisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod adeg gweithredu.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw, erbyn 16 Gorffennaf, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion a amlinellir yn yr hysbysiad hwn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Prif Swyddog Gweithredol, at sylw Kathryn Worwood, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB neu trwy e-bost i kath.worwood@torfaen.gov.uk.

Llofnod:-

Stephen Vickers, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Dyddiad:- 18/06/26

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r hysbysiad statudol ond fe'i cynigir fel esboniad)

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Ganolfannau Adnoddau Dysgu mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion ag anghenion Dysgu Ychwanegol. Diben y cynnig hwn yw sefydlu canolfan debyg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Bydd y lleoliad yn cynnig darpariaeth ar gyfer 10 disgybl i ddechrau.